

Canllawiau Ymrestru a Ffurflen Ymrestru 2021/22

Addysg Barhaus a Phroffesiynol, 21-23 Heol Senghennydd, Caerdydd CF24 4AG
Ffôn: 029 2087 0000 E-bost: learn@caerdydd.ac.uk

Darllenwch y canllawiau ymrestru isod a'r telerau ac amodau **YMA** cyn cwblhau'r ffurflen. Unwaith y cwblheir y ffurflen, ebostiwch gopi ohoni at: LEARN@caerdydd.ac.uk

Pryd i Ymrestru

Ymrestrwch cyn gynted â phosibl:

- ▶ Mae cyrsiau poblogaidd yn llenwi'n gyflym.
- ▶ Gall cyrsiau nad oes digon o bobl wedi ymrestru ar eu cyfer gael eu canslo.
- ▶ Os ydych yn ymrestru'n gynnar, bydd gennych amser i gyflwyno cais am gerdyn adnabod a llyfrgell cyn i'r cwrs ddechrau.

Os na fydd modd i chi ymrestru ymlaen llaw, dylech ymrestru cyn gynted â phosibl ar ôl y dosbarth cyntaf.

Sut i Gofrestru

Pan fyddwch wedi cyflwyno'r ffurflen hon, fe gewch ebost i gadarnhau ein bod wedi ei derbyn. Bydd y cadarnhad yn rhoi manylion i chi am sut i dalu am eich cwrs.

Os ydych chi'n gwneud cais am fath o ffi heblaw'r ffi lawn, darllenwch y wybodaeth isod a gwnewch yn siŵr eich bod yn ebostio Learn@Caerdydd.ac.uk gyda'r dogfennau perthnasol i brofi eich bod yn gymwys i dalu'r ffi ratach.

GWNEWCH YN SŴR EICH BOD WEDI LLOFNODI'R DATGANIAD OHERWYDD CAIFF FFURFLENNI HEB LOFNOD EU DYCHWELYD ATOCH.

Cyfyngiadau

Mae'n ofynnol i chi ddatgan euogfarn sydd heb ddarfod os oes cyfyngiadau a allai effeithio ar eich gallu i ymgymryd ag unrhyw elfen o'ch rhaglen astudio. Os oes unrhyw gyfyngiadau arnoch sy'n eich atal rhag defnyddio'r rhyngwyd neu raglenni fel ebost, rhaid i chi roi gwybod i'r Brifysgol. Rhaid i chi roi gwybod i'r Brifysgol hefyd os oes unrhyw gyfyngiadau arnoch o ran cyrffw, a/neu, eich gallu i fynd i leoliadau/ardaloedd (gan gynnwys gorchmynion atal) fyddai'n effeithio ar eich gallu i fod yn bresennol ar gyfer unrhyw elfen o'ch cwrs.

Ffioedd a Chymorth Ariannol

Dangosir y tâl llawn a'r ffi ratach ar gyfer pob cwrs yn y manylion ar gyfer y cwrs yn y prospectws neu ar y wefan. Gweler isod i weld a ydych yn gymwys ar gyfer derbyn cymorth ariannol neu dalu ffi ratach.

Cyllid i Fyfrwyr Rhan-amser

Cynllun Mynychu Cyrsiau'n Ddi-dâl CCAUC

Os nad oes gennych radd gyntaf neu gymhwyster ar lefel gradd, ac os ydych yn cael budd-daliadau penodol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau neu os ydych wedi cofrestru i chwilio am waith ers o leiaf chwe wythnos, efallai eich bod yn gymwys i hawlio ffioedd eich cwrs o dan Gynllun Mynychu Cyrsiau'n Ddi-dâl CCAUC (Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru). Mae'r manylion llawn i'w cael yn www.cardiff.ac.uk/cy/part-time-courses-for-adults/courses/funding-and-paying-for-your-learning neu drwy ffonio 029 2087 9147.

Consesiynau eraill

Os nad ydych yn gymwys ar gyfer Cynllun Hepgor Ffioedd CCAUC, efallai eich bod serch hynny yn gymwys ar gyfer rhai o'r consesiynau a gynigir gennym ni. Mae'r rhain ar gael i'r rheini sy'n cael:

- ▶ Credyd Cynhwysol
- ▶ Credyd Treth Gwaith
- ▶ Cymhorthdal Incwm
- ▶ Pensiwn y wladwriaeth
- ▶ Lwfans Cyflogaeth a Chymorth Cysylltiedig ag Incwm
- ▶ Taliad Annibyniaeth Personol
- ▶ Budd-dâl Tai
- ▶ Neu sydd yn:
- ▶ Lwfans Chwilio am Waith
- ▶ Staff Prifysgol Caerdydd*
- ▶ Gostyngiad Treth y Cyngor (heb gynnwys gostyngiadau ac eithriadau)
- ▶ Myfyrwyr Amser Llawn ym Mhrifysgol Caerdydd

Os ydych chi'n hawlio ffi ratach, mae'n rhaid i chi ddangos tystiolaeth briodol o'ch hawl i dalu ffioedd rhatach. Dylai'r dyddiad ar bob dogfen brawf fod o fewn chwe wythnos i'r dyddiad y byddwch yn ymrestru. Cysylltwch â ni os oes amoch angen rhagor o gyngor.

***Ni chynigir gostyngiadau os caiff eich ffioedd eu talu gan noddwr.**

Benthyciadau a Grantiau Cyllid Myfyrwyr Cymru at Ffioedd Dysgu

Mae'n bosibl y bydd myfyrwyr rhan-amser yn gymwys i wneud cais i Gyllid Myfyrwyr Cymru am fenthyciad ffioedd dysgu i ariannu eu haddysg. Weithiau, mae'n bosibl y bydd myfyrwyr yn gymwys i gael grantiau penodol hefyd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan www.cardiff.ac.uk/cy/part-time-courses-for-adults/courses/funding-and-paying-for-your-learning neu drwy ffonio **029 2087 539**

Rhaglen Cymorth Ariannol

Gellir cael cymorth ariannol ychwanegol gan y Brifysgol ar gyfer myfyrwyr sydd ar incwm isel a heb unrhyw brofiad blaenorol o Addysg Uwch. Am fwy o wybodaeth am bwy sy'n gymwys a sut i wneud cais, cysylltwch â'r Tîm Cyngor ac Arian yn y Ganolfan Cefnogi Myfyrwyr, Canolfan y Graddedigion, 3ydd Llawr Undeb Myfyrwyr Caerdydd, Plas y Parc, Caerdydd.

Ebost: adviceandmoney@caerdydd.ac.uk

Rhandaliadau

Os bydd cyrsiau'n costio dros £360 (heb gynnwys cyrsiau ar-lein), gallwch dalu mewn dau randaliad. Rhaid talu'r blaendal cyntaf o £260 wrth ymrestru. Bydd ein Tîm Cyllid yn rhoi manylion am bryd a sut y dylid talu'r ail randaliad ar ôl i'ch ymrestriad gael ei brosesu.

OS YDYCH AM DYNNU'N ÔL O GWRS BYDD ANGEN TALU'R AIL RANDALIAD O HYD.

Os oes cyflogwr (heblaw Prifysgol Caerdydd) yn bwriadu talu am y cwrs ac yn dymuno cael anfoneb, dylai'r cyflogwr ddarparu archeb brynu i'r perwyl hwnnw. Dylech amgáu'r archeb brynu gyda'ch ffurflen ymrestru. Os na allwch amgáu archeb brynu, ffoniwch ni ar **029 2087 9147**.

Os hoffech ddefnyddio Benthyciad Myfyriwr i dalu ffioedd eich cwrs, crëwch gyfrif ar wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru a nodi eich Cyfeirnod cwsmer ar eich ffurflen ymrestru.

Adran 1 - Manylion personol y myfyriwr

Teitl Enw(au) cyntaf

Cyfenw/Enw teuluol

Dyddiad geni (dd/mm/yyyy)

Rhif y Myfyriwr (os yw'n hysbys):

Os ydych wedi astudio gydag Addysg Barhaus a Phroffesiynol yn y gorffennol, mae eich rhif myfyriwr ar eich **Cadarnhad o Gofrestru a Thalu**.

Cyfeiriad eich cartref presennol (yn llawn)

Côd post

Rhif ffôn symudol

Rhif ffôn amgen

Cyfeiriad ebost

Bydd eich Cadarnhad o Gofrestru a Thalu yn cael ei anfon i'r cyfeiriad ebost a nodir.

Os ydych wedi astudio gyda ni yn y gorffennol ac mae eich manylion wedi newid e.e. cyfeiriad a/neu enw, nodwch eich manylion blaenorol isod.

Ym mha wlad mae eich cyfeiriad cartref parhaol?

Fyddwch chi o dan 18 oed ar ddechrau'r cwrs?

Byddaf Na fyddaf

Os ydych chi wedi ticio 'Byddaf' yna bydd angen inni gysylltu â chi i gael manylion eich rhieni neu'ch gwarcheidwaid er mwyn ysgrifennu atyn nhw.

Adran 2 - Cwrs/cyrsiau astudio arfaethedig

Rhif y Cwrs	Teitl y Cwrs	Dyddiad Dechrau	Amser Dechrau	Ffi Daladwy	Categori'r Ffi* <small>Dewiswch un o'r rhestr</small>	Rhandaliad (Ie/Na)
						Ie Na <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/>
						Ie Na <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/>
						Ie Na <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/>
						Ie Na <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/>
						Ie Na <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/>
						Ie Na <input type="checkbox"/> <input type="checkbox"/>

* Categoriâu Ffioedd

Llawn (F)	Ffi Ratach - Pensiwn y Wladwriaeth (HS)	Ffi ratach - Staff neu Fyfyriwr PC (CU)	Ffi ratach - Budd-daliadau gan y Wladwriaeth (HR)	Hepgoriad Ffioedd HEFCW (FW)	Benthyciad gan Gyllid Cymru (L)
-----------	---	---	---	------------------------------	---------------------------------

Rhaid cyflwyno tystiolaeth ddogfenol o'ch hawl i dalu ffioedd rhatach gyda'ch ffurflen gofrestru.

Gweler adran Ffioedd a Chymorth Ariannol y canllawiau cofrestru ar gyfer manylion ynghylch categorïau'r ffioedd, cymhwysedd a thystiolaeth briodol.

Adran 3 - Manylion talu

Enw a chyfeiriad y person sy'n talu os yw'n wahanol i'r ymgeisydd:

Enw

Cyfeiriad

Dull talu (ticiwch fel bo'n briodol):

Cerdyn Credyd/Debyd

Nawdd gan Gyflogwr (amgaewch archeb brynu)

Prifysgol Caerdydd (amgaewch archeb brynu Masnach Fewnol)

Benthyciad gan Gyllid Myfyrwyr Cymru Cyfeirnod Cwsmer:

AR GYFER Y SWYDDFA YN UNIG

Côd Awdurdo			Rhif y Myfyriwr		
	Llythrennau blaen	Dyddiad		Llythrennau blaen	Dyddiad
Derbyniwyd			Mynediad		
Gwiriwyd			Copi anabledd		
Prawf o'r consesiwn :			Dalen dderbyn		
Consesiwn wedi'i gymeradwyo:			Cofnodi ar SIMS		
PDQ			Rhif swp		

Adran 4

Gosodir dyletswydd ar y Brifysgol i gasglu'r wybodaeth sy'n dilyn gan yr Asiantaeth Ystadegol ar gyfer Addysg Uwch (HESA). Os ydych yn fyfyrwr newydd neu os ydych wedi ymrestru yn y gorffennol ond heb roi'r manylion hyn o'r blaen, cwblhewch bob rhan o'r ffurflen. Os ydych wedi ymrestru yn y gorffennol ac mae'r wybodaeth wedi newid ers y tro diwethaf, rhwch y manylion newydd. **Os ydych wedi ymrestru yn y gorffennol, a does dim byd wedi newid ers y tro diwethaf, ewch i ran 5.**

Rhyw (ticiwch):

Gwryw Benyw Arall

Cefndir ethnig (ticiwch)

Gwyn	<input type="checkbox"/>	Cymysg - Gwyn a Du Caribiaidd	<input type="checkbox"/>
Du neu Ddu Prydeinig - Caribiaidd	<input type="checkbox"/>	Cymysg - Gwyn a Du Affricanaidd	<input type="checkbox"/>
Du neu Ddu Prydeinig - Affricanaidd	<input type="checkbox"/>	Cymysg - Gwyn ac Asiaidd	<input type="checkbox"/>
Cefndir Du arall	<input type="checkbox"/>	Cefndir Cymysg arall	<input type="checkbox"/>
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Indiaidd	<input type="checkbox"/>	Cefndir Ethnig arall	<input type="checkbox"/>
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Pacistani	<input type="checkbox"/>	Arabaidd	<input type="checkbox"/>
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Bangladeshi	<input type="checkbox"/>	Anhysbys	<input type="checkbox"/>
Tsieineaidd	<input type="checkbox"/>	Gwrthod Rhoi Gwybodaeth	<input type="checkbox"/>
Cefndir Asiaidd arall	<input type="checkbox"/>		

Cenedl (nodwch)

Hunaniaeth genedlaethol (ticiwch)

Mae hunaniaeth genedlaethol yn adlewyrchu sut y mae unigolyn yn dewis ei weld ei hun, a hyn er enghraifft ar sail diwylliant, iaith, hanes teuluol (gellir dewis hyd at ddau ateb):

Prydeinig	<input type="checkbox"/>	Sais/Saesnes	<input type="checkbox"/>
Cymro/Cymraes	<input type="checkbox"/>	Arall	<input type="checkbox"/>
Albanwr/Albanes	<input type="checkbox"/>	Anhysbys	<input type="checkbox"/>
Gwyddel/es	<input type="checkbox"/>	Gwrthod Rhoi Gwybodaeth	<input type="checkbox"/>

Siarad Cymraeg (ticiwch).

A ydych yn ystyried eich bod yn:

Siarad Cymraeg yn rhugl Siarad Cymraeg ond heb fod yn rhugl Methu siarad Cymraeg

Hoffech chi gael gohebiaeth gan y Addysg Barhaus a Phroffesiyno yn Gymraeg?

Hoffwn Na hoffwn

Anabledd

Oes gennych chi anabledd/anhawster dysgu penodol?

Oes Nac oes

Natur yr anabledd/anhawster dysgu penodol (*ticiwch y blwch*)

Dall neu nam difrifol ar y golwg

Byddar neu nam difrifol ar y clyw

Nam corfforol neu broblemau symudedd gan gynnwys defnyddio cadair olwyn

Nam cymdeithasol/cyfathrebu e.e. Syndrom Asperger

Cyflwr iechyd meddwl fel iselder, sgitsoffrenia neu anhwylder iselder

Salwch neu gyflwr iechyd hirdymor e.e. canser, HIV, diabetes, clefyd cronig y galon neu epilepsi

Dau neu ragor o namau/cyflyrau meddygol sy'n analluogi

Anhawster dysgu penodol fel dyslecsia, dyspracsia neu AD(H)D

Anabledd, nam neu gyflwr meddygol arall (heb ei restru uchod)

Gwrthod rhoi gwybodaeth

A ydych yn derbyn y lwfans i fyfyrwyr anabl?

Ydw Nac ydw

Cymhwyster uchaf *Ticiwch wrth y cymhwyster uchaf sydd gennych ar yr adeg pan ydych yn ymrestru:*

Lefel O/TGAU	<input type="checkbox"/>	NVQ Lefel 2	<input type="checkbox"/>	Gradd UE	<input type="checkbox"/>
Safon Uwch	<input type="checkbox"/>	NVQ Lefel 3	<input type="checkbox"/>	Gradd Dramor	<input type="checkbox"/>
HNC	<input type="checkbox"/>	NVQ Lefel 4	<input type="checkbox"/>	TAR gyda QTS	<input type="checkbox"/>
HND	<input type="checkbox"/>	NVQ Lefel 5	<input type="checkbox"/>	TAR heb QTS	<input type="checkbox"/>
BTEC (nodwch ba lefel)	<input type="checkbox"/>	Gradd Gyntaf DU	<input type="checkbox"/>	Arall (<i>nodwch</i>)	<input type="checkbox"/>
<input type="text"/>		Gradd/Tyst. Olraddedig DU	<input type="checkbox"/>	<input type="text"/>	
NVQ Lefel 1	<input type="checkbox"/>	Gradd Uwch DU	<input type="checkbox"/>		

Profiad blaenorol o Addysg Uwch

A ydych erioed wedi dechrau Cwrs Addysg Uwch (h.y. yn uwch na Safon Uwch neu gwrs cyfatebol) yn y DU o'r blaen, ac os felly, a wnaethoch chi fynychu'r cwrs hwn am 6 mis neu fwy?

Ydw Nac ydw

Mae'r cwestiwn canlynol yn ymwneud â lefel addysg eich rhieni. Mae hyn yn cynnwys rhieni naturiol, rhieni sydd wedi mabwysiadu, llys-rieni neu warcheidwaid sydd wedi eich magu.

A oes gan unrhyw un o'ch rhieni (fel y'u diffinnir uchod) unrhyw gymwysterau addysg uwch, megis gradd, diploma neu dystysgrif addysg uwch?

Oes Nac oes Ddim yn gwybod Gwrthod rhoi gwybodaeth

Beth yw eich crefydd? (ticiwch)

Dim crefydd	<input type="checkbox"/>	Cristion - Enwad arall	<input type="checkbox"/>
Bwdhydd	<input type="checkbox"/>	Hindŵ	<input type="checkbox"/>
Cristion	<input type="checkbox"/>	Iddew	<input type="checkbox"/>
Cristion - Eglwys yr Alban	<input type="checkbox"/>	Mwslim	<input type="checkbox"/>
Catholig Rhufeinig	<input type="checkbox"/>	Sîc	<input type="checkbox"/>
Cristnogol - Eglwys Bresbyteraidd Iwerddon	<input type="checkbox"/>	Ysbrydol	<input type="checkbox"/>
Cristion - Eglwys Iwerddon	<input type="checkbox"/>	Unrhyw grefydd neu gred arall	<input type="checkbox"/>
Cristnogol - Eglwys Fethodistaidd Iwerddon	<input type="checkbox"/>	Gwrthod rhoi gwybodaeth	<input type="checkbox"/>

Adran 5 - Mynediad ac Addasiadau Rhesymol i Fyfyrrwyr Anabl

Os oes gennych anabledd, a oes gennych unrhyw ofnion o ran mynediad, addasiadau rhesymol neu gymorth ychwanegol sydd eu hangen yn eich barn chi o ganlyniad i'ch anabledd yn uniongyrchol e.e. mynediad at lifft, taflenni print bras neu amser ychwanegol ar gyfer asesiadau?

Oes Nac oes Os 'nac oes', ewch i **Adran 6**

Os oes, disgrifiwch isod yr anghenion neu'r addasiadau rhesymol y mae arnoch eu hangen yn eich barn chi:

Oes arnoch chi angen cerdyn i ddefnyddio'r drws cefn oherwydd anawsterau symud o gwmpas?

Oes Nac oes

Os oes arnoch angen addasiad(au) rhesymol, gawn ni roi gwybod i'ch tiwtor?

(Sylwch: os byddwch yn ticio i ddweud na chawn, fe allai hynny gyfyngu ar yr addasiadau y gallwn eu gwneud))

Cewch - ar unwaith Cewch - ar ôl imi drafod gyda'r Adran Addysg Barhaus a Phroffesiynol

Na chewch

Adran 6:

Helpwch ni i farchnata ein cyrsiau'n fwy effeithiol drwy ateb y ddau gwestiwn hyn.

1. Beth yw'ch prif reswm dros ymrestru ar y cwrs hwn? (ticiwch eich **PRIF reswm yn unig)**

Datblygu proffesiynol at eich swydd bresennol	<input type="checkbox"/>	Diddordeb yn y pwnc	<input type="checkbox"/>
Datblygu proffesiynol i newid gyrfa	<input type="checkbox"/>	Ennill cymhwyster	<input type="checkbox"/>
Cymdeithasu/cwrdd â phobl newydd	<input type="checkbox"/>		

2. Sut clywsoch chi am y cwrs? (ticiwch **UN blwch)**

Y wefan	<input type="checkbox"/>	Facebook/Twitter	<input type="checkbox"/>
Prosbectws	<input type="checkbox"/>	Ebost	<input type="checkbox"/>
Ar lafar	<input type="checkbox"/>	Taflen gyrsiau	<input type="checkbox"/>

Adran 7:

Darllenwch y canlynol a thiciwch y blwch datganiad isod. Ni fydd modd prosesu ffurflenni sydd heb eu ticio, a byddant yn cael eu dychwelyd.

Bydd yr holl faterion sy'n codi am eich bod wedi cofrestru fel myfyriwr yn yr Adran Addysg Barhaus a Phroffesiynol yn cael eu llywodraethu a'u dehongli yn unol â chyfraith Cymru a Lloegr ac maen nhw o dan awdurdodaeth Llysoedd Cymru a Lloegr yn unig. Gall cwynion mewn perthynas ag unrhyw faterion sy'n codi am eich bod wedi cofrestru fel myfyriwr gael eu cyfeirio at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, ond dim ond ar ôl i'r gweithdrefnau mewnol gael eu dihysbyddu.

Defnyddir y wybodaeth a gesglir ar y ffurflen hon ar gyfer gweinyddu'r cyrsiau yr ydych yn ymgeisio ar eu cyfer. Gall y Brifysgol ddatgelu'r wybodaeth hon i'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch, a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

O bryd i'w gilydd hoffem anfon copi o prospectws a gwybodaeth atoch drwy'r post am gyrsiau a digwyddiadau ym Mhrifysgol Caerdydd. Os nad ydych am i ni anfon y wybodaeth hon atoch, ticiwch y blwch

Ticiwch y blwch hwn os hoffech gael negeseuon ebost am gyrsiau, digwyddiadau a newyddion gennym ac am eich maes astudio

Hoffwn Na Hoffwn

Datganiad y Myfyriwr

- ▶ Tystiaf fod y wybodaeth a roddir yn y cais hwn yn gyflawn ac yn gywir hyd y gwn i.
- ▶ Yr wyf yn derbyn y telerau a'r amodau ymrestru ac yn cytuno i ddilyn rheoliadau'r Adran Addysg Barhaus a Phroffesiynol.
- ▶ Os byddaf yn ymrestru drwy **dalw rhandaliadau**, rwyf yn deall mai fi sy'n gyfrifol am dalu'r ail rhandaliad a ffi'r cwrs yn llawn yn unol â thelerau ac amodau ymrestru gydag Addysg Barhaus a Phroffesiynol, p'un a ydw i wedi mynychu dosbarthiadau ai peidio.
- ▶ Yn yr un modd, os oes angen **benthyciad gan Gyllid Myfyrrwyr Cymru** arnaf i ymrestru, fi fydd yn gyfrifol am dalu holl ffioedd y cwrs yn llawn os bydd fy nghais am fenthyciad yn aflwyddiannus neu'n anghyflawn erbyn 31/05/22.

Ticiwch y blwch i gadarnhau eich bod wedi darllen y datganiad i fyfyrwyr ac yn cytuno i'r holl delerau ac amodau.

Unwaith y cwblheir y ffurflen, ebostiwch gopi ohoni at: LEARN@caerdydd.ac.uk

Telerau ac Amodau Pwysig ar gyfer Ymrestru

Taliadau

Rhaid bod tâl gyda phob ymrestriad a dylid ymrestru cyn y cyfarfod cyntaf, os oes modd. **Os ydych wedi cytuno i dalu mewn rhandaliadau, bydd yr ail randal yn ddyledus yn llawn am y cwrs p'un a fyddwch chi'n bresennol ym mhob dosbarth neu beidio.**

Diddymu cyrsiau ac ad-daliadau

Rydym yn cadw'r hawl i ddiddymu neu gwtogi ar gyrsiau. Pan fydd hyn yn digwydd fe fyddwn yn rhoi ad-daliad llawn neu rannol fel sy'n briodol.

Myfyrwyr yn tynnu allan ac ad-daliadau

Os ydych am dynnu allan o gwrs, rhaid i chi roi gwybod i ni am hyn ar bapur o leiaf **5 diwrnod gwaith cyn dechrau'r cwrs** a gallwn drefnu ad-daliad i chi. Ar adegau prysur fe allai gymryd hyd at bedair wythnos i brosesu hyn ac fe godir tâl gweinyddol o £10 am drefnu'r ad-daliad. Ni allwn roi ad-daliad i fyfyrwyr sy'n penderfynu tynnu allan ar ôl i gwrs ddechrau.

Gwneud cais i drosglwyddo

Ar ôl i gwrs ddechrau, gallwn ganiatáu i chi drosglwyddo i gwrs arall o dan amgylchiadau penodol, er enghraifft os nad yw'r lefel yn briodol. **Sylwch na fydd cytundeb awtomatig i drosglwyddiadau bob amser, ac y dylai ceisiadau gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig i learn@caerdydd.ac.uk** (er y gall myfyriwr ffonio os yw'r cais yn un brys). Os byddwn yn caniatáu i chi drosglwyddo a bod y ffi ar gyfer y cwrs newydd yr un fath, neu'n is, ni

fydd tâl. Os yw ffi'r cwrs newydd yn uwch, rhaid talu'r gweddill yn llawn. Sylwch hefyd mai unwaith yn unig y cewch drosglwyddo ffi cwrs. Mae trosglwyddiad yn ddilys fel arfer am 12 mis.

Cadarnhau ymrestriad a lleoliad dosbarthiadau

Byddwn yn cysylltu â chi os na allwn dderbyn eich ymrestriad am unrhyw reswm. Os nad ydych wedi derbyn cadarnhad o'ch ymrestriad cyn dechrau'r cwrs, dylech fynd i'r cyfarfod cyntaf ar yr amser a'r dyddiad ac yn y lle a nodwyd yn ar yr amser, dyddiad ac yn y lleoliad a nodir. Bydd amserlenni i'w gweld yn adeilad yr Adran Addysg Barhaus a Phroffesiynol, adeilad John Percival ac unrhyw rai eraill o adeiladau'r Brifysgol lle mae ystafelloedd wedi'u pennu ar gyfer dosbarthiadau, a dylech chwilio am rif ystafell eich dosbarth wrth ichi fynd i'ch sesiwn cyntaf.

Cyfyngiadau

Nid oes rhaid i chi ddatgan collfarn sydd heb ddarford oni bai bod cyfyngiadau ar waith a allai effeithio ar eich gallu i ymgymryd ag unrhyw elfen o'ch rhaglen astudio. Os oes gennych unrhyw gyfyngiadau sy'n eich atal rhag defnyddio'r rhyngwrwyd neu raglenni fel ebost, rhaid i chi roi gwybod i'r Brifysgol. Rhaid i chi roi gwybod i'r Brifysgol hefyd os oes unrhyw gyfyngiadau arnoch o ran cyrffiw, a/neu, eich gallu i fynd i leoliadau/ardaloedd (gan gynnwys gorchmynion atal) fyddai'n effeithio ar eich gallu i fod yn bresennol ar gyfer unrhyw elfen o'ch cwrs.

